

DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#20
Yn cynnwys: Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch: • Potel win neu gynhwysydd coffi • Caead cadw pwrpasol gyda phwmp • Malws melys
Aros am eiliad, Milo! Gad i fi roi malws melys mawr i ti ar gyfer dy siocled poeth.
Rhowch lond llaw o falws melys bach yn y botel neu'r cynhwysydd.
Rhowch y caead yn ei le …
… a phwmpiwch gymaint o'r aer allan ag sy'n bosibl.
Dylai'r malws melys dyfu llawer. Pan fyddwch yn agor y caead…
… dylent ddychwelyd i'w maint blaenorol.
Mae'r malws melys yn cynnwys swigod bach o aer sy'n cael eu gwasgu o bob ochr gan yr aer sydd yn yr atmosffer. Wrth i chi gael gwared ar yr aer sydd o'u cwmpas, mae'r swigod yn fwy rhydd i ehangu a byddant yn gwneud i'r malws melys chwyddo gyda nhw.
Vic Le Billon